Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

# Papur Bwrdd

17 Mai 2018

| | |
|---|---|
| **Teitl y Papur** | **Adroddiad Perfformiad 2017/18**<br>**Adroddiad ynghylch cyfnod tri (1 Ebrill 2017 i 31 Mawrth 2018)** |
| **Cyfeirnod y Papur:** | **Papur Cyfoeth Naturiol Cymru B B 18.18** |
| **Paratowyd y Papur gan:** | **Mark Hughes** |
| **Cyflwynwyd y Papur gan** | **Claire Pillman** |

| | |
|---|---|
| **Diben y Papur:** | **Ystyried perfformiad Cyfoeth Naturiol Cymru yn ystod Cyfnod 3 / cyfnod adrodd diwedd y flwyddyn (1 Ebrill 2017 i 31 Mawrth 2018)** |
| **Argymhelliad:** | Gofynnir i'r Bwrdd graffu ar yr adroddiad perfformiad ar gyfer Cyfnod 3 2017/18 cyn ei anfon at Lywodraeth Cymru, gan ystyried y canlynol yn benodol:<br>• Digonedd pob esboniad ategol ar gyfer pob mesur a'r ffordd rydym yn mabwysiadu ffyrdd newydd o weithio sy'n dangos bod adnoddau naturiol yn cael eu rheoli mewn modd cynaliadwy<br>• Y mesurau lliniaru a'r camau gweithredu a gynigir i fynd i'r afael â risgiau i gyflawni'r gwaith hwn<br>• A ydych yn glir fod camau gweithredu a mesurau lliniaru'r adroddiad yn gyson â pharodrwydd y Bwrdd i gymryd risgiau<br>Gofynnir i'r Bwrdd gytuno i symud o'n hadroddiadau dangosfwrdd bob pedwar mis i adroddiadau chwarterol ar gyfer blwyddyn 2018/19 ymlaen. |

| | |
|---|---|
| **Effaith:** | Sut mae'r cynigion yn y papur hwn yn helpu Cyfoeth Naturiol Cymru i gyflawni ffyrdd o weithio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol o ran:<br>• **Edrych ar y tymor hir** – Mae'r dangosyddion o fewn yr adroddiad perfformiad yn adeiladu darlun tymor hir o newid.<br>• **Gweithredu mewn ffordd integredig –** Mae'r adroddiad perfformiad yn rhychwantu ehangder ein gwaith.<br>• **Cynnwys amrywiaeth o'r boblogaeth –** Mae'r adroddiad perfformiad yn cael ei wneud ar gael i'r cyhoedd.<br>• **Gweithio mewn ffordd gydweithredol –** Mae nifer o'n dangosyddion ni'n olrhain newid sy'n gofyn am fewnbwn gan nifer o bartneriaid. |

| | |
|---|---|
| | • **Atal problemau rhag codi –** Mae nodi problemau sy'n dod i'r amlwg yn gynnar trwy'r adroddiad perfformiad yn caniatáu pennu cynlluniau a blaenoriaethau er mwyn cyflawni'r effeithiau gorau. |

**Mater**

1. Mae rownd Cyfnod 3 (diwedd y flwyddyn) o adroddiadau perfformiad corfforaethol, ar gyfer y flwyddyn 1 Ebrill 2017 i 31 Mawrth 2018, bellach wedi cael ei chwblhau, ac mae'r adroddiad perfformiad yn barod i'w graffu gan y Bwrdd cyn cyflwyno i Lywodraeth Cymru. Mae adrodd ar berfformiad yn cael ei gynnal bob pedwar mis.

## Cefndir

2. Mae'r adroddiad perfformiad corfforaethol yn un o brif ffyrdd y Bwrdd o graffu ar ein gwaith cyflawni ac ategu cynllunio strategol.

3. Datblygwyd yr adroddiad perfformiad (Atodiad 1) fel rhan o'r broses i baratoi Cynllun Busnes 2017–18 a Chynllun Corfforaethol 2017–22 gyda'r Bwrdd, y Tîm Gweithredol, ac Is-grŵp Cynllunio a Pherfformiad y Bwrdd. Mae'n cynnwys:

- Dangosfwrdd sy'n rhoi trosolwg un dudalen o uchafbwyntiau perfformiad yn erbyn Cynllun Busnes 2017–18
- Testun ar gyfer pob mesur dangosfwrdd sy'n canolbwyntio ar yr hyn rydym wedi'i gyflawni, a oes unrhyw broblemau/risgiau nodedig a beth yw eu goblygiadau, a'r hyn rydym yn mynd i'w wneud nesaf
- Testun yn egluro sut, ar draws y set o fesurau dangosfwrdd, rydym yn cymhwyso naw egwyddor rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy

4. Dyma'r trydydd adroddiad a'r un terfynol ar gyfer ein cynllun busnes cyfredol (2017–18). Dyma'r trydydd adroddiad hefyd ar gyfer cyfnod newydd y cynllun corfforaethol (2017–2022).

## Asesiad

5. O ran dangosfwrdd y cynllun busnes, dengys ein perfformiad isod ar gyfer rownd Cyfnod 3 eleni o adroddiadau perfformiad corfforaethol ar bwys yr adroddiadau blaenorol ar gyfer Cyfnod 1 a Chyfnod 2.

6.

| | Cyfnod 1<br>1 Ebrill 2017 – 30 Mehefin 2017 | Cyfnod 2<br>1 Ebrill 2017 – 30 Tachwedd 2017 | **Cyfnod 3 (diwedd y flwyddyn) 1 Ebrill 2017 – 31 Mawrth 2018** |
|---|---|---|---|
| ‘Gwyrdd’ | 24 | 22 | **22** |
| ‘Melyn’ | 7 | 10 | **9** |
| ‘Coch’ | 0 | 1 | **2** |
| Amherthnasol | 3 | 1 | **1** |
| Cyfanswm | 34 | 34 | **34** |

7. Gofynnir i'r Bwrdd nodi'r adroddiad "coch" a materion allweddol eraill ar draws yr adroddiadau "melyn" a "gwyrdd".

- Creu 230 hectar o gynefin (Coch) – Fel yr adlewyrchwyd yn yr adroddiad perfformiad diwethaf, nid ydym wedi creu 200 hectar o gynefin drwy adfer mawndiroedd fel y bwriadwyd yn wreiddiol gan na dderbyniwyd cyllid gan y cynlluniau perthnasol. Mae ein Cynllun Busnes ar gyfer 2018/19 yn cynnwys sut y byddwn yn gweithio i wella bioamrywiaeth a gwydnwch ecosystemau drwy adfer, creu a gwella cyflwr cynefinoedd, drwy ymyriadau uniongyrchol ar y tir a dŵr a reolir gennym, ac mewn cydweithrediad â phartneriaid.  Nid ydym wedi cyflawni'r nod o greu 30 hectar o gynefin ar gyfer rheoli perygl llifogydd eleni. Mae oedi i brosiectau a gynlluniwyd wedi golygu mai dim ond wyth hectar o'r cynefin a gynlluniwyd sydd wedi cael ei gyflawni eleni. Mae pob un ohonynt yn parhau a disgwylir i'r gwaith creu cynefinoedd gael ei wireddu yn 2018/19. Mae rhai o'r prosiectau yn hirdymor a byddant yn sicrhau bod cynefinoedd yn cael eu creu mewn blynyddoedd i ddod. Bydd adolygiad o 2017/18 yn cael ei gynnal i nodi pam mae prosiectau wedi methu cyflawni eleni er mwyn dysgu gwersi ar gyfer cyflawni yn y dyfodol.
- Mae 80% o gamau gweithredu ar safleoedd dynodedig wedi'u cwblhau neu'n mynd rhagddynt (Coch) – mae'r camau gweithredu a gynlluniwyd sy'n mynd rhagddynt neu sydd wedi'u cwblhau yn cyrraedd cyfanswm o 67%. Mae hyn oherwydd diffyg staff asiantaeth tir i gynnal trafodaethau a gwaith cyfalaf yn cael ei ohirio oherwydd tywydd garw. Fodd bynnag, bu llwyddiannau yn ystod y flwyddyn, gan gynnwys cychwyn y Prosiect Cyforgors a ariannwyd gan EU Life, sy'n cynnwys saith o'r wyth Ardal Cadwraeth Arbennig sy'n gyforgorsydd yng Nghymru. Mae sefydlu'r prosiect sylweddol hwn wedi gofyn am gryn dipyn o adnoddau a fyddai wedi cael eu defnyddio fel arall mewn trafodaethau mewn mannau eraill. Byddwn yn adolygu'r ffordd rydym yn cynllunio ein rhaglen flynyddol o gamau gweithredu a sut y byddwn yn sicrhau'r adnoddau i'w chyflawni yn 2018/19.
- Darparu gwasanaeth ymateb i ddigwyddiadau effeithiol a chydlynol (ddim yn berthnasol) - Rydym yn hyderus ein bod yn ymateb mewn da bryd i ddigwyddiadau yn unol â'n Canllawiau Categoreiddio Digwyddiadau; fodd bynnag, nid yw data o'n System Cofnodi Digwyddiadau Cymru yn dangos hyn. Bu problemau o ran y ffaith nad oedd y system yn hawdd i'w deall i ddefnyddwyr a chredwn fod y perfformiad isel a gofnodwyd yn broblem sy'n ymwneud â'r system, mewnbynnu data, ac amser yn bennaf. Gwnaed rhai gwelliannau i'r systemau ym mis Chwefror 2018 a bydd fersiwn newydd o System Cofnodi Digwyddiadau Cymru yn cael ei gweithredu ym mis Mehefin 2018. Rydym wedi pennu cerrig milltir chwarterol ac rydym yn anelu at gyflawni ein lefelau perfformiad targed erbyn diwedd 2018/19. Mae'r cerrig milltir wedi'u cynnwys yn yr atodiad er budd cyflawnrwydd.
- Penderfynu ar 90% o geisiadau trwydded o fewn amserlenni y cytunir arnynt (Gwyrdd) – Er nad ydym wedi cwrdd â'n targed, dylid nodi y gall ceisiadau proffil uchel roi pwysau sylweddol ar y gwasanaeth hwn a denu sylw'r cyhoedd. Er enghraifft, roedd angen ymgysylltiad cyhoeddus ac ymgynghoriadau ffurfiol, yn ystod sawl cam, ar gyfer y cais i ddatblygu cyfleuster biomas yn y Barri, a chymerodd y broses o benderfynu ar y cais 29 wythnos yn ei chyfanrwydd. Mae ymholiadau parhaus a cheisiadau am wybodaeth yn dal i gyrraedd.

- Adeiladu cynlluniau lliniaru llifogydd er mwyn lleihau'r risg i 500 eiddo (Gwyrdd) – Gwnaethom gwblhau cynlluniau yn Lecwydd a Llanelwy, gan gynyddu'r amddiffyniad i 1,282 eiddo. Fodd bynnag, mae cynllun yn y Rhath y disgwylir iddo gael ei gwblhau yn 2018/19 wedi denu llawer o ddiddordeb gan y cyhoedd ac wedi rhoi pwysau sylweddol ar y tîm lleol.
- Symud i fodel ariannu allanol a arweinir gan gomisiynu (Gwyrdd) – Mae'r model yn gweithredu ac mae wedi arwain at 200 datganiad o ddiddordeb, y mae 80 ohonynt wedi cael eu dewis ar gyfer ceisiadau llawn. Mae cyngor yn cael ei baratoi i helpu ymgeiswyr. Mae'r broses o symud i'r model hwn wedi bod yn newid sylweddol i sawl un o'n partneriaid ac rydym wedi helpu i sicrhau bod y gwaith o'i fabwysiadu wedi bod mor esmwyth â phosibl gan gynnig help ac arweiniad. Mae'r help hwn yn barhaus. Rydym hefyd yn ystyried sut y gallwn ddatblygu a gwella ein dull o weithio, o fewn cyfyngiadau'r rheolau ar gyfer ariannu partneriaethau.
- Rydym wedi rhagori ar ein targed i anfon 700,000m3 o bren i'r farchnad; 743,737m3 oedd y ffigwr mewn gwirionedd (Gwyrdd). Rydym wedi gweld galw mawr am bren, a arweiniodd at gynnydd mewn pris a'r incwm o ganlyniad i hyn. Rydym hefyd wedi bod yn gweithio i derfynu ar gontractau pren hirdymor sy'n gysylltiedig â chlirio llarwydd ac yr ymgymerwyd â nhw mewn ymateb i achosion o *P. ramorum*. Rydym yn sicrhau bod y broses o ddirwyn i ben ar y contractau hyn yn drefnus ond un sy'n osgoi amharu ar y gadwyn gyflenwi. Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn ein cefnogi gyda'r gwaith o graffu ar y contractau a'r trefniadau pontio.

8. Bydd y prif weithredwr yn darparu crynodeb llafar o'r hyn a gyflawnwyd yng nghyfarfod y Bwrdd a bydd aelodau eraill o'r Tîm Gweithredol ar gael i ateb cwestiynau'r Bwrdd.

9. Bydd yr adroddiad perfformiad yn cael ei gyflwyno i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig a chaiff ei gyhoeddi ar wefan Cyfoeth Naturiol Cymru.

10. Er mwyn darparu craffu ychwanegol, cynigir ein bod yn newid pa mor aml rydym yn adrodd o dair gwaith y flwyddyn i bedair ar gyfer adroddiad perfformiad 2018/19, h.y. yn chwarterol.

**Argymhellion**

11. Gofynnir i'r Bwrdd graffu ar yr adroddiad perfformiad ar gyfer Cyfnod 3 2017/18 cyn ei anfon at Lywodraeth Cymru, gan ystyried y canlynol yn benodol:
    - Digonedd pob esboniad ategol ar gyfer pob mesur a'r ffordd rydym yn mabwysiadu ffyrdd newydd o weithio sy'n dangos bod adnoddau naturiol yn cael eu rheoli mewn modd cynaliadwy
    - Y mesurau lliniaru a'r camau gweithredu a gynigir i fynd i'r afael â risgiau i gyflawni'r gwaith hwn
    - A ydych yn glir fod camau gweithredu a mesurau lliniaru'r adroddiad yn gyson â pharodrwydd y Bwrdd i gymryd risgiau

12. Gofynnir i'r Bwrdd gytuno i symud o'n hadroddiadau dangosfwrdd bob pedwar mis i adroddiadau chwarterol ar gyfer blwyddyn 2018/19 ymlaen. Bydd hyn yn alinio ag adrodd ariannol ac yn darparu ar gyfer craffu ychwanegol.

**Risgiau allweddol**

13. Mae craffu ar berfformiad sefydliadol gan y Bwrdd yn ofynnol fel elfen allweddol o ddangos ein cyflawniad yn erbyn cynlluniau busnes a chorfforaethol.

**Goblygiadau ariannol**

14. Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol sylweddol i ddarparu'r Fframwaith Perfformiad.

**Asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb**

15. Cynhaliwyd asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb ar gyfer Cynllun Busnes 2017–18, a'n cynllun corfforaethol newydd i 2022.

**Mynegai o atodiadau**

Atodiad 1 – Adroddiad Perfformiad 2017/18 (1 Ebrill 2017 i 31 Mawrth 2018)